# COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANILAR
a gynhaliwyd ar y 1af Hydref 2019
am 8.00y.h.

**PRESENNOL:- Cynghorwyr Ann Tudor, Rowland Jones, Caredig Jones, Dewi Rattray, Richard Davies, Meiron Davies, Meic Francis, Ada Evans, John Davies.**

**ABSENOLDEBAU:** Cynhorwyr Dylan Edwards

Rhoddwyd croeso cynnes i gyfarfod Mis Hydref gan y Cadeirydd Rowland Jones.

Wnaeth y cyngor cymuned dymuno Penblwydd Hapus iawn i'r Cyng. Meirion Davies.

Dachraeodd y cyfarfod 8 o'r gloch. Darllenwyd cofnodion Mis Medi, cynigwyd eu bod yn gywir gan y Cyng. Meic Francis ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.

18/1082 - MATERION YN CODI

1. Nid oes ymateb wedi eu dderbyn wrth y Cyngor Sir ynglyn a offer i helpu gyda'r sefyllfa baw cwn yn y pentref. Ofynnwyd I'r clerc cystylltu eto ynglyn a hyn.

18/1083 - LLYTHYRON

1. Llythyr wrth Cruse Beravement a phoster yn rhoi manylion ar y gwasanaeth meant yn cynnig. Penderfynnwyd nodi hwn ar yr hysbysfwrdd.
2. Ebost wrth y Cyngor Sir yn amlinellu newidiadau i'r gwasanaeth wastraff. Penderfynnwyd derbyn y rhain.
3. Nifer o negeseuon Un Llais Cymru a chyflwynwyd gan y Cyng. Meic Francis gan gynnwys manylion hyfforddiant modiwl 9 Code of Conduct a modiwl 10 a hefyd Bwletin Un Llais Cymru.

18/1084 - ARIANNOL

1. Cyflog y Clerc ar gyfer mis Awst, Medi a Hydref; £133.26 y mis. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng. John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng. Dewi Rattray.
2. Cais wrth y Pwyllgor Milleniwm yn gofyn am help Ariannol tuag at yswiriant Noson Tan Wyllt. Cyfanswm yr yswiriant eleni fydd £548.86. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.Ada Evans ac fe eiliwyd gan y Cyng. Richard Davies. Fe wnaeth y Cynghorwyr Dewi Rattray, Ann Tudor a John Davies datgan diddordeb.
3. £25.00 ar gyfer cost y Poppy wreath a rhodd i'r Royal British Legion. Cynnigwyd I'w dalu gan y Cyng. John Davies ac fe eiliwyd gan y Cyng. Meic Francis.
4. Rydym wedi derbyn ebos gyda eglyrhad ynglyn a'r cynydd yn cost goleunu'r stryd 2019. Ar ol trafod yr esboniad yma, cynnigwyd i dalu'r costiau sef £1030.87, roedd pawb yn gytun. Cynnigwyd i'w dalu gan y Cyng.Ada Evans ac fe eiliwyd gan y Cyng. John Davies.

18/1085 – CYNLLUNIO

Derbynniwyd dau cais y mis yma

1. Cais rhif: A190645
   Ymgeisydd: Mr J Wasgtaff
   Y Bwriad: Change of use of outbuilding to two holiday lets
   Fe benderfynwyd cefnogi'r cais yma. Fe gynigwyd gan y Dewi Rattray Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng.Ann Tudor.

   Cais rhif: A190632
   Yngeisydd: Gethin Evans Rhosgoch Llanilar
   Y Bwriad: Erection of Agricultural Cattle Shed
   Fe benderfynwyd cefnogi'r cais yma. Fe gynigwyd gan y Cyng. Caredig Jones ac fe eiliwyd gan y Cyng.John Davies. Fe wnaeth y Cyng Ada Evans datgan diddordeb.

18/1086 - UNRHYW FATER ARALL

1. Ofynnwyd i'r clerc ysgrifennu at y Gwasanaeth Post I wneud ymholiadau ynglŷn â'r posibilrwydd o gael swyddfa bost yn ôl yn y pentref.
2. Sul y Cofion; 10-11-2019 am 10.45yb.
3. Dyddiad arall i'r dyddiadur; Noson Goleuo'r goeden Dydd Sul 01.12.2019
4. Nodwyd gan aelod o'r cyhoedd bod y sietyn wrth ymyl rhif 1 Cwm Aur yn gordyfu dros y palmant. Phasiwyd i'r Cyng. Meic Francis i edrych mewn i hyn yn bellach.

Orffenwyd y gyfarfod am 9.00pm